



DATGANIAD URDDAS YN Y GWEITHLE

**Datganiad cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw:
Rhagoriaeth mewn addysg: darpariaeth nodedig yng Nghymru
er budd y byd ehangach.**

Er mwyn gweithio tuag at y genhadaeth hon, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal ac mae'n anelu at ddarparu amgylchedd gweithio a dysgu sy'n rhydd o wahaniaethu annheg. Nod y Brifysgol yw sefydlu amgylchedd lle caiff staff a myfyrwyr eu trin gydag urddas a pharch, wrth eu gwaith ac wrth astudio, gyda phob unigolyn yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddatblygu a chynnal amgylchedd lle mae pob myfyriwr, aelod o staff neu ymwelydd yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

Bydd y Brifysgol yn ceisio cymryd camau priodol i sicrhau na fydd unrhyw fyfyrwr, aelod o staff neu ymwelydd yn dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn ar sail rhyw, oedran, anabledd, cenedlaetholdeb, hil, crefydd neu gredo, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, statws priodasol neu ddosbarth cymdeithasol.

Lluniwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gefnogi diwylliant Urddas yn y Gweithle ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.



PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David